

Helo, a chroeso i fy nghyflwyniad. Fy enw i yw Cheryl Davies, cod myfyrwyr 2203989 a chod modiwl ECEY6005.

Byddaf yn siarad heddiw am gynaliadwyedd yn y blynyddoedd cynnar, gyda ffocws ar athroniaeth ac egwyddorion i gefnogi hwn trwy brofiadau i blant.

I ddechrau, hoffwn fyfyrion bersonol ar y prosiect wnes i gyfranogi mewn er mwyn cymryd rhan mewn gwobr John Muir trwy'r brifysgol.

Fe wnaeth hyn fy syfrdanu, a hefyd yn gwneud i mi deimlo'n eithaf trist, oherwydd er fy mod yn cerdded heibio'r afon Llynfi yn aml ar hyd y llwybr, nid wyf erioed wedi sylwi unrhyw o'r natur hon oherwydd nid wyf wedi cymryd amser i stopio ac arsylwi.

O hyn, rwyf wedi dysgu ei bod yn hawdd cymryd yr amgylcheddau naturiol hyn yn ganiataol, ac mae'n bwysig gwarchod yr amgylchedd naturiol i gynnal y bywyd gwyllt a'r adnoddau naturiol hyn. I warchod yr amgylchedd hwn, creodd fy merch a minnau fwydir adar a glöyn byw mas o blastig wedi'i ailgylchu, er mwyn gwarchod poblogaeth y creaduriaid hyn, ac amddiffyn yr ecosystem a bywyd gwyllt.

Llenwon ni'r poteli plastig a'r potiau ffrwythau hyn wedi'u hailgylchu gyda ffrwythau ffres gydag ychydig o ddŵr i'r gloynnod byw a chynghori gan y National History Museum (dim dyddiad), ac uwd amrwd ceirch a cheerios i'r adar yn unol â'r cyngor y RSPB (2013). Ar ôl hyn, wnaethon ni hongian nhw yn y coed lle rydym yn gallu arsylwi nhw gael eu defnyddio.

Ar ben hynny, wnaethon ni creu tŷ chwilod mas o gardfwrdd wedi'i ailgylchu, ac adnoddau naturiol fel dail, glaswellt a ffyn. Fe wnaethom osod hwn mewn ardal lle gwelwyd llawer o bryfed, er mwyn darparu lle diogel i'r pryfed nythu, gaeafgysgu a chynyddu poblogaeth y pryfed hyn.

Mae'r prosiect hon wedi caniatáu i mi fyfyrion ar sut allai hyrwyddo cynaliadwyedd, a thrwy gynnwys y teulu. Mae wedi fy nysgu i arafu, arsylwi a gwerthfawrogi'r ardaloedd naturiol hyn a pha mor bwysig yw cadw'r rhain ar gyfer yr amgylchedd. Hefyd, mae wedi gwneud i mi fyfyrion ar blentyndod fy hun, a pa mor lwcus oeddwn i

fel plentyn, roedd rhan fwyaf o fy mhentyndod mas yn yr awyr agored, dringo coed, chwarae mewn afon, archwilio ardaloedd naturiol a fy hoff atgof yw treillio amser yn y goedwig gyda fy nheulu achub grifft a phenbyliaid o byllau sych.

Er fy mod i wedi magu fy merch yn yr un ffordd yn yr awyr agored, a ninnau fel teulu yn ddwli archwilio meysydd newydd, nid oes unrhyw osgoi'r ffaith bod llawer o blant ar y cyfleodd dysgu ac archwilio yn yr amgylchedd awyr agored, ac rwyf wedi gweld hyn uniongyrchol trwy weithio gyda'r blynyddoedd cynnar am dros 20 mlynedd.

Ers gwneud y prosiect John Muir, rydym wedi bod yn arsylwi'r ardal fwy aml, ac rwyf wedi arsylwi a gwrandao ar lawer o ystlumod hedfan i mewn i'r coetir y gallaf ei weld o'm gardd, a hefyd gwyllo teulu o grehyrod yn bwydo pysgod yn yr afon, sydd wedi bod yn anhygoel i'w weld yr anifeiliaid hyn yn eu cynefinoedd naturiol.

Hefyd, rwyf wedi dysgu pa mor hyblyg fyddai hyn i ddysgu'r blynyddoedd cynnar, a pha mor bwysig yw gofalu am ein Daear, fel y mae gwybodaeth cenhedlaeth y dyfodol. Mae'n rhaid i ni, fel addysgwyr, ddysgu plant sut i warchod ein hamgylchedd a'u diogelu er mwyn amddiffyn eu dyfodol.

Wrth symud ymlaen, rydym yn mynd i ddechrau eistedd allan yn ein gardd yn fwy, a bwyta brecwast y tu allan yn y misoedd cynhesach i wrando ar gân hardd yr adar, ac arsylwi ar yr anifeiliaid sy'n byw yn ein plith, yn cynnal ein byd a'n bywydau, ac yn gwerthfawrogi eu swyddi pwysig llawer mwy a throsglwyddo'r wybodaeth hon i'r plant sydd yn fy ngofal.

Naw'r fyddaf yn symud ymlaen i'r ail ran o'r cyflwyniad hyn.

Yn ôl Elliott, Ärlemalm-Hagsér a Davis (2020, t.22) a Burke, Sanson a Van Hoorn (2018), mae'r cyflwr gwael presennol y byd o ran newid hinsawdd a heriau cymdeithasol ac economaidd, yn effeithio ar fywydau plant ledled y byd, oherwydd yr effeithiau datblygiad cyfannol y plentyn a goblygiadau gydol oes. At hyn, rhybuddia Iolo Williams (Williams, 2013) bod natur a byd gwyllt yn marw, a bod 90% o'n gweunydd dŵr wedi diflannu a 99% gweirgloddiau yng Nghymru ei hun dros y blynyddoedd oherwydd trachwant ac anwybodaeth yr hierarchaeth. Creda Williams

yn gryf bydd yr effeithiau o hon yn effeithio ar ein cenhedlaeth i ddod oherwydd diffyg cynaliadwyedd.

Cytunodd Unicef (dim dyddiad) a Save the Children (2024) â hyn, gan nodi bod bob plentyn ar y Ddaear yn cael eu cystuddio gan ddiraddio amgylcheddol, sy allu canlyniad mewn gofal iechyd a lloches o ansawdd gwael. Noda bod hyn yn newid plant, ac yn creu rhwystr i blant rhag tyfu i fyny i fod yn iach, wedi'u haddysgu ac i ffynnu.

Fodd bynnag, yn y gynhadledd a gynhelir gan Gynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar yr Amgylchedd a Datblygu o'r enw 'Copa'r Ddaear' yn 1992, datgan bod gobaith am nod cyraeddadwy o gynnaladwyedd rhyngwladol (United Nations, dim dyddiad). O hyn, datblygwyd hefyd yr 2030 Agenda ar gyfer Datblygiad Cynaliadwyedd (United Nations, 2023), 17 nod a thargedau ar gyfer datblygiad cynaliadwyedd byd-eang, gyda phartneriaethau ac undod ar ddefnyddiad o adnoddau ar gael i lwyddo i roi'r nodau hyn ar waith ar draws y byd.

Un o'r canlyniadau o hyn oedd Agenda 21, rhaglen weithrediad cynnig strategaethau newydd i'w mabwysiadu ar gyfer cynaliadwyedd byd-eang yn yr 21ain ganrif, gyda'r nod o sefydlu partneriaethau byd-eang, cynlluniau a pholisïau cenedlaethol, ac ymrwymiad gwleidyddol gyda chydweithrediad o'r lefel uchaf (United Nations Sustainable Development, 1992, t.3-5). Ymhelaethodd Tinney (dyfynnwyd yn Champion, 2020, t.462) ar hyn, gan nodi wrth i'r agenda hyn gael ei chyflawni, wnaeth gwledydd ledled y byd datblygu polisïau eu hun gan danategu'r cynigion o'r Agenda 21.

Serch hynny, er gwaethaf y glasbrint hwn o gamau gweithredu yn ffynnu ar ddechrau'r 2000au, wnaeth nifer o gymdeithasau sifil ddiddymu'r gweithredoedd hyn oherwydd gostyngiad mewn cefnogaeth wleidyddol, defnydd uchel o adnoddau a diwylliannau sefydliadol (Zacher *et al.* 2021). Yn debyg, creda Kveton *et al.* (2014) bod yr agenda hwn yn wynebu nifer o broblemau byd-eang, gan gynnwys mesur a gwerthuso'r gweithredoedd, diffyg dealltwriaeth a chytundeb gan arbenigwyr ar sut i gyflawni cynaliadwyedd.

Gellid un myfyrio ar y wybodaeth hon, gan edrych ar ystadegau byd-eang o ddirywiad cynaliadwyedd. Yn ôl World Health Organization (2023), rhwng 2030 a 2050 bydd tua 250,000 mwy o farwolaethau o ddiffyg maeth a straen gwres yn flynyddol oherwydd newid hinsawdd, ac yn cynorthwyo argyfyngau dyngarol fel llifogydd, tanau gwyllt a stormydd trofannol. Yn debyg, noda Dymment *et al.* (2014) a Parth *et al.* (2020) bod plant yn fwy tebyg i ddioddef o niwed i'r effeithiau a newidiadau byd-eang, gyda'r heriau cynaliadwyedd sy'n ein hwynebu nawr ac yn y dyfodol, ac yn mynnu bod angen i blant derbyn addysg cynaliadwyedd trwy addysgeg, i fod yn asiantau gweithredol am newid.

Mae'r farn hon yn cysylltu â'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (2015) (Legislation.gov, dim dyddiad). Noda o dan adran 16 yn y ddeddf hon, mae ffocws ar gynaliadwyedd, ac ar y gweinidogion Cymru i wneud cynlluniau a threfniadau i hyrwyddo'r datblygith o gynaliadwyedd.

Fodd bynnag, yn ôl Carter a MacKillop (2023), er bod y ddeddf hon yn y ddeddfwriaeth gyntaf ar gyfer datblygu cynaliadwy, mae tystiolaeth yn dangos bod diffyg mesurau neu ganllawiau a ddarperir ar gyfer gweithredu'r camau i gyflawni cynaliadwyedd. Cytuna Nesom a MacKillop (2021) gyda'r datganiad hyn, gan ddisgrifio'r ddeddf fel dyhead ac amwys heb unrhyw gefnogaeth neu arweiniad cenedlaethol.

Serch hynny, yn yr arweiniad Addysg ar gyfer Cynaliadwy Datblygu a Byd-eang Dinasyddiaeth (*Llywodraeth Cymru*, 2012, tt.5-15), y nod oedd darparu pobl gyda'r addysg ar sgiliau i adnabod y canlyniadau o ein dewisiadau ffordd o fyw ar y Ddaear, gan integreiddio'r egwyddorion hyn trwy bolisiau, addysgu ac ymarfer.

Mae'r arweiniant hyn yn cysylltu ar 4 pwrpas y Cwricwlwm i Gymru (*Llywodraeth Cymru*, 2022) trwy'r pedwar diben, lle mae'n nodi'r datblygiad o ddinasyddion moesegol a gwybodus, trwy ddysgu trwy'r cwricwlwm i dangos eu hymrwymiad i gynaliadwyedd y blaned.

Mae Tinney (2023, t.55) a Tang a Woolley (2023) yn ymhelaethu ar hyn ymhellach, gan nodi wrth i blant cysylltu ag ystod agored o gyfleoedd chwarae rhydd dan do ac

yn yr awyr agored, mae hon gallu integreiddio'r dysgu trwy'r cwricwlwm, a hefyd rhagori'r cyfleoedd dysgu hyn â dysgu uniongyrchol.

Yn debyg, creda Ampartzaki, Kalogiannakis a Papadakis (2021) a Dankiw *et al.* (2023) dylai'r addysg blant gynnwys datblygiad o'r chwilfrydedd plant am eu byd, datblygu sgiliau meddwl plant ar gyfer ymchwilio i'w hamgylchedd a hyrwyddo'r addysg plant am y byd o'u gwmpas, y maent yn credu bydd yn creu dinasyddion wedi'u grymuso a fydd yn hyrwyddo dyfodol cynaliadwy yn weithredol. Mae hon hefyd yn cael ei datgan o dan Darged 13.3 o'r United Nations Sustainable Development Goals, lle nodi'r targed o welliant addysg ac ymwybyddiaeth o allu sefydliadol a dynol ar newid hinsawdd a chanolbwytied ar rybuddion cynnar, lliniaru, addasu a lleihau effeithiau (United Nations, dim dyddiad(a), t.14).

Serch hynny, noda Tinney a Hirst (2018, t.108-110) a Gelmez Burakgazi a Reiss (2024) er bod yr Addysg ar gyfer Cynaliadwy Datblygu a Byd-eang Dinasyddiaeth (*Llywodraeth Cymru*, 2012) yn sicrhau'r addysg hon i blant, yn ychwanegol trwy'r Cwricwlwm i Gymru (*Llywodraeth Cymru*, 2022), dylai plant hefyd dysgu agweddau ehangach ar gynaliadwyedd megis y gydberthynas rhwng problemau diwylliannol, cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol o ran cynaliadwyedd.

Ymhellach, creda Barrable (2019) i gyflawni'r dysgu hwn o gydgyssylltiad, dylai plant cael cysylltiad rheolaidd â natur er mwyn dysgu am yr agweddau ehangach ar gynaliadwyedd fel y crybwyllwyd gan Tinney a Hurst (2018).

Fodd bynnag, noda Pinkelman *et al.* (2015) a Willockx a Dom (2022) bod heriau i ddysgu plant am gynaliadwyedd, fel cydbwysu blaenoriaethau mewn ysgolion a lleoliadau, oherwydd mae gan y sefydlodd yma nifer o gyfrifoldebau a thasgau a disgwyliadau academiaidd drwy'r cwricwlwm.

Serch hynny, mae'r wobr John Muir yn cefnogi'r addysgeg hyn a awgrymir ar gyfer plant yn y blynyddoedd cynnar, trwy gymryd agwedd ragweithiol ymarferol at wella ardaloedd yn ein hamgylchedd er mwyn hyrwyddo cynaliadwyedd gan gysylltu â natur, gwarchod a mwynhau mannau gwyllt (John Muir Award, 2013).

Mae'r wobwr hyn yn cysylltu â'r arweiniant Addysg ar gyfer datblygu cynaliadwyedd (Unesco, 2024), trwy un o'u prif agweddau sy'n dysgu o natur, ac i fod yn asiantau newid allweddol.

Un o'r damcaniaethau cynharach o'r pwysigrwydd hon oedd o Froebel, a ddatblygodd y feithrinfa gyntaf, ac a oedd yn eiriolwr dros undod a chysylltiad natur nid dim ond gyda'r amgylchedd ond gyda'r anifeiliaid a phlanhigion hefyd (Froebel Trust, dim dyddiad). Gall yr egwyddorion Froebel hefyd gallu cael eu tanategu mewn cwricwlwm ddiweddarach byd-eang, fel y Cwricwlwm i Gymru (Cefnogaeth Naturiol Cymru, 2022) gyda chysylltiad i natur trwy chwarae awyr agored a chynaliadwyedd, ysgolion coedwigoedd Sgandinafia (France 24, 2023) a'r addysgeg awyr agored Sweden (AP Archive, 2023).

Ymhellach, mae'r damcaniaeth Froebel yn debyg i syniadau Dewey (1933, dyfynnwyd yn Luff, 2018), gyda phrofiadau yn natur, chwilfrydedd a dysgu drwy brofiad ac arbrofi.

At hyn, dyweda Davy (2019, t.12) a Steels (2016) wrth i blant cysylltu â natur o oedran ifanc, mae nifer o fuddion i hyn gan gynnwys bodloni eu chwilfrydedd naturiol, llwybrau niwral a chysylltiadau rhwng meddwl a chorff, a'r datblygiad o werthoedd, diwylliant a'u hunaniaeth unigol eu hunan.

Mae'r farn hon gallu cysylltu â'r hierarchaeth o anghenion Maslow (Sprouts, 2017), trwy'r cysylltiad o natur mae'r angen o berthyn a diogelwch gallu gael eu diwalli trwy gadw'n ddiogel yn yr amgylchedd wrth archwilio, ar deimlad o berthyn trwy ddarganfod am y byd o'u gwmpas mewn ffordd ymarferol (Pichère a Cadiat, 2015, t.5-6).

Yn debyg, creda Hernandez Gonzalez (2023) a Sisson a Lash (2017) wrth gysylltu â'r gymuned ac amgylchedd lleol, mae hon yn hyrwyddo fforddwyedd diwylliannol a hanesyddol, ac yn gallu meithrin ymddygiad a gwerthoedd cynaliadwyedd.

Gellid hefyd cysylltu'r damcaniaeth hon gyda'r system bioecolegol Bronfenbrenner. Creda Bronfenbrenner bod datblygiad dynol cynnar yn digwydd trwy ryngweithiadau

o ansawdd uchel rhwng y plentyn a symbolau a gwrthrychau yn amgylchedd allanol y plentyn (Bronfenbrenner a Morris, 1998, dyfynnwyd yn Feriver *et al.* 2022).

Fodd bynnag, mae rhwystrau i gysylltu â natur yn yr awyr agored i blant. Yn ôl Loebach *et al.* (2021) a Pioreschi a Norris (2022) mae plant heddiw yn fwy tebyg i wario mwy o amser yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sgrin neu ddigidol yn lle ymchwilio'n awyr agored, ac adrodd Sandseter *et al.* (2020) a Chwarae Cymru (2022) dirywiad mewn chwarae awyr agored oherwydd mwy o draffig yn ardaloedd lleol y plentyn sy'n freuder i'w rieni a'i ofalwyr.

At hyn, dyweda Estèves-Mauriz *et al.* (2020) bod angen amddiffyn plant o atal clefydau a all ddeillio o lygredd sŵn a achosir gan gynnydd mewn traffig, ac yn ôl yr adroddiad "A Future of the World's Children" wnaeth weithwyr proffesiynol datgan bod angen i bob gwlad fyd-eang rhoi plant yn y canol o benderfyniadau gan wrando ar eu lleisiau o ran datblygiad cynaliadwyedd (Clark *et al.*, 2020).

Ymhellach, adrodd *r Llywodraeth Cymru* (2023, t. 5) yn ysgolion yng Nghymru, bod diffyg cyfleoedd i blant brofi natur a chynefin, ac i ymchwilio neu warchod ardal leol, sy'n adran o'r wobwr John Muir, a chafodd effaith wael ar sgiliau datblygol plant fel gorchfygu heriau a dewisiadau unigol.

Mae'r adroddiad hon yn adlewyrchu angen i'r fath hyn o ddysgu cynyddu er mwyn cyflawni cynaliadwyedd, trwy ddealltwriaeth o'r cydgysylltiad rhwng bodau dynol a'r agweddau natur i gyd (Barrera-Hernández *et al.* 2020).

Mae diogelwch, chwarae ac addysg yn hawliau sylfaenol sy'n cael eu tanategu'n drwm yn y Crynodeb o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig a'r Hawliau'r Plentyn (*Llywodraeth Cymru*, 2021), o dan erthygl 3, yr hawl i wneud yr hyn sydd orau i bob plentyn, erthygl 6, yr hawl i fywyd, datblygiad a goroesi, erthygl 12, yr hawl i barchu barnau'r plentyn, erthygl 24, yr hawl i iechyd, erthygl 27, safon byw ddigonol ac erthygl 29, nodau addysg a pharchu'r amgylchedd.

I grynhoi, gellid un nodi'r pwysigrwydd i'r cenedlaethau'r dyfodol dysgu am gynaliadwyedd, dim ond i achub ein Daeor a chyflawni cynaliadwyedd, ond i brofi

gwell safon bywyd wrth iddynt dyfu. Wrth fyfyrto, mae bywyd naw'r lot yn wahanol yn barod o'n plentyndod hyd at blant heddiw o ran safon o fyw, amgylcheddau a ffyrdd o fyw. Mae'r cyfrifoldeb gyda ni, fel ymarferwyr i newid addysg plant am y byd o'u gwmpas a sut i'r plant y dyfodol cyflawni cynaliadwyedd am eu hun ac mewn cenedlaethau i ddod.

Diolch yn fawr am wrando ar fy nghyflwyniad, os oes unrhyw gwestiynau gyda'ch, plîs ofyn.

Rhestr Gyfeirio

Ampartzaki, M., Kalogiannakis, M. a Papadakis, S. (2021) 'Deepening Our Knowledge about Sustainability Education in the Early Years: Lessons from a Water Project', *Education Sciences*, 11(6), tt. 251-. Ar gael yn:

<https://doi.org/10.3390/educsci11060251>

AP Archive (2023) *Forest schools popular in Sweden*. Ar gael yn:

<https://youtu.be/iAHvpZs10EU?si=BkhyPY4K7CG2vH0B> (Cyrchwyd 30 Mehefin 2024)

Barrable, A. (2019) *Refocusing Environmental Education in the Early Years: A Brief Introduction to a Pedagogy for Connection*. Ar gael yn:

https://moodle.uwtsd.ac.uk/pluginfile.php/584764/mod_resource/content/1/A%20pedagogy%20of%20connection.pdf?redirect=1

Barrera-Hernández, L.F., Sotelo-Castillo, M.A., Echeverría-Castro, S.B., Tapia-Fonllem, C.O. (2020) 'Connectedness to Nature: Its Impact on Sustainable Behaviors and Happiness in Children', *Frontiers in Psychology*, 11. Ar gael yn:

<https://doi.org/10.3389/fpsyg.2020.00276>

Bronfenbrenner, U., a Morris, P.A. (1998), *Handbook of Child Psychology: Vol 1, Theoretical Models of Human Development*. New York: John Wiley and Sons.

Campion, N. (ed.) (2020) *The Harmony Debates : exploring a practical philosophy for a sustainable future*. Ceredigion: Sophia Centre Press.

Burke, S.E.L., Sanson, A.V. and Van Hoorn, J. (2018) 'The Psychological Effects of Climate Change on Children', *Current Psychiatry Reports*, 20(5), tt. 35–35. Ar gael yn:

<https://doi.org/10.1007/s11920-018-0896-9>

Carter, I. a MacKillop, E. (2023) 'Can we promote plural local pathways to sustainable development? Insights from the implementation of Wales's Future Generations Act', *Journal of Environmental Policy & Planning*, 25(5), tt. 554–569. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1080/1523908X.2023.2221182>

Chwarae Cymru (2022) *Playing and meeting outdoors*. Ar gael yn: <https://play.wales/play/playing-and-meeting-up-outdoors/> (Cyrchwyd 2 Gorffennaf 2024)

Clark, H., Coll-Seck, A.M., Banerjee, A., Peterson, S., Dalglish, S.L., Ameratunga, S., Balabanova, D., Bhan, M.K., Bhutta, Z.A., Borrazzo, J., Claeson, M., Doherty, T., El-Jardali, F., George, A.S., Gichaga, A., Gram, L., Hipgrave, D.B., Kwamie, A., Meng, Q., Mercer, R., Narain, S., Nsungwa-Sabiiti, J., Olumide, A.O., Osrin, D., Powell-Jackson, T., Rasanathan, K., Rasul, I., Reid, P., Requejo, J., Rohde, S.S., Rollins, N., Romedenne, M., Singh Sachdev, H., Saleh, R., Shawar, Y.R., Shiffman, J., Simon, J., Sly, P.D., Stenberg, K., Tomlinson, M., Ved, R.R., Costello, A. (2020) 'A future for the world's children? A WHO–UNICEF–Lancet Commission', *The Lancet (British edition)*, 395(10224), tt. 605–658. Ar gael yn: [https://doi.org/10.1016/S0140-6736\(19\)32540-1](https://doi.org/10.1016/S0140-6736(19)32540-1)

Cyfoeth Naturiol Cymru (2022) *Increased role for outdoor learning and natural environment in a new school curriculum*. Ar gael yn: <https://naturalresources.wales/about-us/news-and-blogs/blogs/increased-role-for-outdoor-learning-and-natural-environment-in-new-school-curriculum/?lang=en> (Cyrchwyd 30 Mehefin 2024)

Dankiw, K.A. et al. (2023) 'Parent and early childhood educator perspectives of unstructured nature play for young children: A qualitative descriptive study', *PLoS One*, 18(6), tt. e0286468–e0286468. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1371/journal.pone.0286468>

Davy, A. (2019) *A sense of place : mindful practice outdoors*. London: Featherstone.

Dewey, J. (1933) *How We Think*. Boston, MA: Houghton Mifflin Company.

Dyment, J.E., Davis, J.M., Nailon, D., Emery, S., Getenet, S., McCrea, N., Hill, A. (2014) 'The impact of professional development on early childhood educators' confidence, understanding and knowledge of education for sustainability', *Environmental Education Research*, 20(5), tt. 660–679. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1080/13504622.2013.833591>

Elliott, S., Ärlemalm-Hagsér, E. and Davis, J.M. (eds) (2020) *Researching early childhood education for sustainability : challenging assumptions and orthodoxies*. Abingdon, Oxon ; Routledge.

Feriver, Ş., Olgan, R., Teksöz, G., Barth, M. (2022) 'Impact of early childhood education settings on the systems thinking skills of preschool children through the lens of Bronfenbrenner's theory', *Systems research and behavioral science*, 39(1), tt. 85–103. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1002/sres.2749>

France 24 English (2023) *Scandinavia: 'Forest Kindergartens', a wild education*. Ar gael yn: <https://youtu.be/Q7b7kttjd2c?si=9Z0BnPfKsRvG5Yzy> (Cyrchwyd 30 Mehefin 2024)

Froebel Trust (Dim dyddiad) *Froebelian Principles*. Ar gael yn: <https://www.froebel.org.uk/about-us/froebelian-principles> (Cyrchwyd 30 Mehefin 2024)

Gelmez Burakgazi, S. and Reiss, M.J. (2024) 'Perceptions of Sustainability among Children and Teachers: Problems Revealed via the Lenses of Science Communication and Transformative Learning', *Sustainability*, 16(11), tt. 4742-. Ar gael yn: <https://doi.org/10.3390/su16114742>.

Hernandez Gonzalez, F. (2023) 'Exploring the Affordances of Place-Based Education for Advancing Sustainability Education: The Role of Cognitive, Socio-Emotional and Behavioural Learning', *Education Sciences*, 13(7), tt. 676-. Ar gael yn: <https://doi.org/10.3390/educsci13070676>

John Muir Award (2013) *John Muir Award Information Film*. Ar gael yn: <https://youtu.be/jCulXPYPP4U?si=g7oz0lkoJKn2maFR> (Cyrchwyd 30 Mehefin 2024)

Kveton, V., Louda, J., Slavik, J., Pelucha, M. (2014) 'Contribution of Local Agenda 21 to Practical Implementation of Sustainable Development: The Case of the Czech Republic', *European Planning Studies*, 22(3), tt. 515–536. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1080/09654313.2012.753994>

Legislation.gov (Dim dyddiad) *Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015*. Ar gael yn: <https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/2/section/16> (Cyrchwyd 28 Mehefin 2024)

Llywodraeth Cymru (2012) *Education for Sustainable Development and Global Citizenship*. Ar gael yn: <https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2018-02/education-for-sustainable-development-and-global-citizenship-a-common-understanding-for-the-adult-and-community-learning-sector.pdf> (Cyrchwyd 28 Mehefin 2024)

Llywodraeth Cymru (2021) *Crynodeb o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig a'r Hawliau'r Plentyn*. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-11/poster-crynodeb-uncrc.pdf> (Cyrchwyd 2 Gorffennaf 2024)

Llywodraeth Cymru (2022) *Datblygu gweledigaeth ar gyfer cynllunio cwricwlwm*. Ar gael yn: <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cynllunio-eich-cwricwlwm/datblygu-gweledigaeth-ar-gyfer-cynllunio-cwricwlwm> (Cyrchwyd 28 Mehefin 2024)

Llywodraeth Cymru (2023) *Teaching and learning in the outdoors: the current state of outdoor learning in schools in Wales*. Ar gael yn: <https://hwb.gov.wales/api/storage/177a33a6-7c70-4843-bb63-903e70a04154/teaching-and-learning-in-the-outdoors-the-current-state-of-outdoor-learning-in-schools-in-wales.pdf> (Cyrchwyd 2 Gorffennaf 2024)

Loebach, J., Sanches, M., Jaffe, J., Elton-Marshall, T. (2021) 'Paving the Way for Outdoor Play: Examining Socio-Environmental Barriers to Community-Based Outdoor Play', *International Journal of Environmental Research and Public Health*, 18(7), tt. 3617-. Ar gael yn: <https://doi.org/10.3390/ijerph18073617>

Luff, P. (2018) 'Early Childhood Education for Sustainability: Origins and Inspirations in the Work of John Dewey', *Education 3-13*, 46(4), tt. 447–455. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1080/03004279.2018.1445484>

National History Museum (Dim dyddiad) *How to make a simple butterfly feeder*. Ar gael yn: <https://www.nhm.ac.uk/discover/how-to-make-simple-butterfly-feeder.html> (Cyrchwyd 25 Mehefin 2024)

Nesom, S. a MacKillop, E. (2021) 'What matters in the implementation of sustainable development policies? Findings from the Well-Being of Future Generations (Wales) Act, 2015', *Journal of Environmental Policy & Planning*, 23(4), tt. 432–445. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1080/1523908X.2020.1858768>

Parth, S., Schickl, M., Keller, L., Stoetter, J. (2020) 'Quality Child–Parent Relationships and Their Impact on Intergenerational Learning and Multiplier Effects in Climate Change Education. Are We Bridging the Knowledge–Action Gap?', *Sustainability*, 12(17), tt. 7030-. Ar gael yn: <https://doi.org/10.3390/su12177030>

Pichère, P. and Cadiat, A.-C. (2015) *Maslow's hierarchy of needs*. Translated by C. Probert. Namur: Lemaitre Publishing.

Pinkelman, S.E., McIntosh, K., Rasplica, C.K., Berg, T., Strickland-Cohen, M.K. (2015) 'Perceived Enablers and Barriers Related to Sustainability of School-Wide Positive Behavioral Interventions and Supports', *Behavioral Disorders*, 40(3), tt. 171–183. Ar gael yn: <https://doi.org/10.17988/0198-7429-40.3.171>

Prioreschi, A. a Norris, S.A. (2022) 'Describing correlates of early childhood screen time and outdoor time in Soweto, South Africa', *Infant and Child Development*, 31(4).
Ar gael yn: <https://doi.org/10.1002/icd.2313>

Royal Society for the Protection of Birds (2013) *Some do's and don'ts on feeding our feathered friends*. Ar gael yn:
<https://community.rspb.org.uk/wildlife/b/wildlife/posts/some-do-s-and-don-ts-on-feeding-our-feathered-friends> (Cyrchwyd 25 Mehefin 2024)

Sandseter, E.B.H., Cordovil, R., Hagen, T.L., Lopes, F. (2020) 'Barriers for Outdoor Play in Early Childhood Education and Care (ECEC) Institutions: Perception of Risk in Children's Play among European Parents and ECEC Practitioners', *Child care in practice : Northern Ireland Journal of Multi-disciplinary Child Care Practice*, 26(2), tt. 111–129. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1080/13575279.2019.1685461>

Save the Children (2024) *The Climate Crisis*. Ar gael yn:
<https://www.savethechildren.org/us/what-we-do/emergency-response/climate-change> (Cyrchwyd 26 Mehefin 2024)

Sisson, J.H. and Lash, M. (2017) 'Outdoor Learning Experiences Connecting Children to Nature', *YC Young Children*, 72(4), tt. 8-.

Sprouts (2017) *Maslow's Hierarchy of Needs*. Ar gael yn: https://youtu.be/O-4ithG_07Q?si=8S3t_3-S04_41Vrj (Cyrchwyd 2 Gorffennaf 2024)

Steels, S. (2016) 'The great outdoors; Parent Link program lets families explore nature with an emphasis on early childhood development', *The Westlock News*.

Tang, P. and Woolley, H. (2023) 'Optimizing Urban Children's Outdoor Play Spaces: Affordances, Supervision, and Design Dynamics', *Sustainability*, 15(20), tt. 14661-.
Ar gael yn: <https://doi.org/10.3390/su152014661>

Tinney, G and Hirst, N. (2018) *Early Childhood Education for Sustainability Within Wales* in Boyd, D, Hirst, N. and Siraj-Blatchford, J. *Understanding Sustainability in Early Childhood Education : Case Studies and Approaches from Across the UK*. Abingdon: Routledge.

Tinney, G. (2023) *Nature, Ecology and Early Years Education*. Sophia Centre Press.
Unesco (2024) *What you need to know about education for sustainable development*. Ar gael yn: <https://youtu.be/jCulXPYPP4U?si=g7oz0lkoJKn2maFR>
(Cyrchwyd 30 Mehefin 2024)

UNICEF (Dim dyddiad) *Climate Change and Environment- A Livable Planet for Every Child*. Ar gael yn: <https://www.unicef.org/environment-and-climate-change>
(Cyrchwyd 26 Mehefin 2024)

United Nations (2023) *Transforming our world: the 2030 Agenda for Sustainable Development*. Ar gael yn: <https://sdgs.un.org/2030agenda> (Cyrchwyd 28 Mehefin 2024)

United Nations (Dim dyddiad(a) *The Agenda for Sustainable Development's 17 Sustainable Development Goals (SDGs)*. Ar gael yn:
https://sdgs.un.org/sites/default/files/2020-09/SDG%20Resource%20Document_Targets%20Overview.pdf (Cyrchwyd 2 Gorffennaf 2024)

United Nations (Dim dyddiad) *Conferences- Environment and Sustainable Development*. Ar gael yn: <https://www.un.org/en/conferences/environment/rio1992>
(Cyrchwyd 26 Mehefin 2024)

United Nations Sustainable Development (1992) *United Nations Conference on Environment & Development Rio de Janerio, Brazil, 3 to 14 June 1992. AGENDA 21*.

Ar gael yn: <https://sustainabledevelopment.un.org/content/documents/Agenda21.pdf>
(Cyrchwyd 26 Mehefin 2024)

Williams, J. (2013) *State of Nature Iolo Williams* 22:05:13. Ar gael yn:
<https://youtu.be/FnJQjtvnggA?si=r3ZPbjOURgJgmzVr> (Cyrchwyd 30 Mehefin 2024)

Willockx, D. and Dom, L. (2022) 'Childcare 2030: On Using SDG's as a Framework for Implementing Sustainability in Two Day-Care Centres in Flanders', *International Journal of Early Childhood*, 54(1), tt. 75–91. Ar gael yn:
<https://doi.org/10.1007/s13158-022-00316-z>

World Health Organization (2023) *Climate Change*. Ar gael yn:
<https://www.who.int/news-room/fact-sheets/detail/climate-change-and-health>
(Cyrchwyd 26 Mehefin 2024)

Zacher, C., Born, M., Wurster, S., Michel, A. (2021) 'What Explains Change-Supporting Behavior within Local Agenda 21 Civil Society Groups to Promote Sustainable Development?', *Sustainability*, 13(22), tt. 12476-. Ar gael yn:
<https://doi.org/10.3390/su132212476>